# Cofnodion cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2025

**Aelodau o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, MBE, Cadeirydd
- Dr Philip Hollington
- Dr John Williams
- Dave Holland
- Georgia Taylor
- Jessica Williams

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Anjali Juneja – Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r Deyrnas Unedig
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch-reolwr Busnes
- Christie O'Keefe – Rheolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a'r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol
- Jonathan Davies – Pennaeth Polisi Safonau a Diogelu Defnyddwyr

**Cyflwynwyr:**

- David Holmes – Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth, yr ASB
- Emily Finney a Jasmine Tomkinson – cydweithwyr maeth o Lywodraeth Cymru
- Ilona Johnson – Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sharon Gilmore – Pennaeth Maeth yn yr ASB yng Ngogledd Iwerddon

# 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau gan Helen Taylor. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod mis Hydref 2024.

# 2. Datgan buddiannau

2.1 Cyhoeddodd Dr Rhian Hayward, MBE ei bod wedi'i phenodi i Fwrdd Swyddfa Cymru ar gyfer Llywodraeth y DU. Datganodd Georgia Taylor ei bod wedi derbyn penodiad cyhoeddus fel Asesydd Annibynnol ar gyfer y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

# 3. Maeth ac Iechyd Deietegol

3.1 **David Holmes, Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth** – Rhoddodd David drosolwg o weithgarwch a blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r system fwyd. Amlinellodd Gynllun ar gyfer Newid y llywodraeth a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2024, sy'n nodi'r pum cenhadaeth y mae'r Blaid Lafur wedi nodi y byddai'n eu dilyn cyn iddi ddod i lywodraeth – ac mae'r genhadaeth iechyd o ddiddordeb arbennig i'r ASB. Hefyd, rhoddodd David wybod am fwriad Defra i ddatblygu strategaeth fwyd a fydd yn cyflawni canlyniadau hirdymor clir ac yn creu system fwyd decach, iachach a gwytnach. Bydd 4 colofn i'r strategaeth, sef: diogelwch, iechyd, twf a chynaliadwyedd. Bydd y colofnau hyn hefyd yn cael eu tanategu gan dair thema hollbwysig: tegwch drwy'r cadwyni cyflenwi, mynediad at fwyd iach a fforddiadwy, a meithrin ymddiriedaeth a grymuso defnyddwyr drwy ddata a thryloywder. Rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor fod yr ASB yn gweithio'n agos ar draws adrannau Whitehall i gyflawni'r darnau hyn o waith, a thynnwyd sylw at y cyfle i dynnu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

3.2 Rhoddodd **cydweithwyr maeth o Lywodraeth Cymru, Emily Finney a Jasmine Tomkinson,** drosolwg o strategaeth 10 mlynedd 'Pwysau Iach: Cymru Iach' a'r cynllun cyflawni cysylltiedig. Mae gan y strategaeth bedair thema ar gyfer gweithredu, sef: amgylcheddau iach, lleoliadau iach, pobl iach

ac arweinyddiaeth a galluogi newid. Yng Nghymru, mae mwy na 60% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew, ac mae tua chwarter o blant Cymru hefyd yn destun y problemau hyn cyn iddynt gyrraedd oedran ysgol. Amcangyfrifir bod cost flynyddol gordewdra yng Nghymru tua £3 biliwn mewn costau economaidd a chostau'r GIG. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd hanner ffordd drwy'r strategaeth 10 mlynedd. Mae dau gynllun cyflawni pum mlynedd, ac maen nhw wrthi'n datblygu'r cynllun cyflawni nesaf i'w lansio ym mis Ebrill 2025. Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar alluogi a chefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar, gan gydnabod y bydd yn helpu i sicrhau newid ar draws y cenedlaethau. Gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd bwyd iach, mae yna ffactorau sy'n dylanwadu ar ein dewisiadau deietegol, gartref ac yn y sector manwerthu.  Yn 2024, gwnaeth Llywodraeth Cymru lansio ymgynghoriad ar becyn cyntaf o fesurau rheoleiddiol sydd wedi'u targedu at yr amgylchedd manwerthu. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys tri gwaharddiad allweddol sy'n cwmpasu cyfyngiadau o ran hyrwyddo cynigion arbennig am brynu sawl eitem ('multi-buy') a chynigion 'prynu un, cael un am ddim' ar gyfer manwerthwyr canolig a mawr ar fwydydd sy'n cynnwys lefel uchel o fraster, halen a siwgr. Mae'r trydydd mesur, sy'n ymwneud â lleoliad bwydydd o fewn y sector manwerthu, yn trafod y cyfyngiadau o ran ail-lenwadau am ddim. Mae hyn yn cwmpasu'r amgylchedd manwerthu a'r sector y tu allan i'r cartref. Mae'r rheoliadau hyn i fod i gael eu gosod yng ngwanwyn 2025 gan ddod i rym yng ngwanwyn 2026. Nododd y pwyllgor ei fod yn falch y bydd y rheoliadau bellach yn sicrhau bod Cymru yn gyson â Lloegr ac y byddai'n croesawu diweddariad yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ar sut mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

3.3 **Ilona Johnson, Iechyd Cyhoeddus Cymru** – Rhoddodd Ilona drosolwg o sut mae ein pwysau, ein maeth a'n bywydau wedi newid. Esboniodd Ilona fod cydberthynas rhwng amddifadedd a gordewdra ac y gall pobl sy'n ordew hefyd fod â diffyg maeth oherwydd deiet o ansawdd gwael. Yn 2019, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad yn canolbwyntio ar bolisïau cyllidol sy'n hyrwyddo iechyd, ac ystyriodd fecanweithiau dwysedd treth er mwyn cynnig dulliau i newid y sefyllfa o ran yr hyn sydd ar ein silffoedd, yr hyn a brynwn a sut yr ydym yn prynu. Yna, rhoddodd Ilona enghreifftiau o wledydd eraill gan

gynnwys Mecsico, Denmarc, Ffrainc a'r Ffindir sydd wedi cyflwyno trethi ar ddiodydd wedi'u melysu â siwgr. Esboniodd Ilona fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddull systemau cyfan ar gyfer pwysau iach sydd wedi'i ymgorffori yn y strategaeth, i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer newid, gan edrych ar dystiolaeth ar gyfer labelu bwyd, meintiau dognau a natur esblygol llwyfannau bwyd ar-lein i geisio creu newid yn y system, nid yn unig mewn unigolion. Cafwyd trafodaeth gan y pwyllgor ynghylch sut mae defnyddwyr yn nodi dewisiadau iach a bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth.

3.4 Esboniodd **Sharon Gilmore, Pennaeth Maeth yn yr ASB yng Ngogledd Iwerddon,** mai'r ASB sy'n gyfrifol am iechyd deietegol yng Ngogledd Iwerddon, a rhoddodd drosolwg o'r prosiectau ymchwil a gynhelir a'r gwaith a wneir ym maes maeth a gwyliadwriaeth. Cymeradwyodd y pwyllgor waith y tîm yng Ngogledd Iwerddon.

3.5 Roedd yn amlwg i aelodau WFAC fod llawer iawn o waith yn digwydd yn y maes hwn, ond y bydd yn cymryd amser i sicrhau newid cadarnhaol. Teimlai WFAC, er bod polisi bwyd wedi'i ddatganoli, fod angen rhywfaint o gyffredinedd a chydweithio ar draws pedair gwlad y DU i sicrhau cynnydd yn y maes hwn.

## 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr yn Llundain.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 24/02/02)

5.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr UKIA ddiweddariad llafar ar yr adroddiad a oedd yn cynnwys newyddion am ailbenodi Cadeirydd Bwrdd yr ASB a phenodiad Katie Pettifer yn Brif Weithredwr yr ASB. Roedd yr adroddiad hefyd yn sôn am ddechrau'r adolygiad gweinidogol o'r ASB yng Nghymru.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Nododd yr aelodau y byddai’r cyfarfod â thema nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Ebrill 2025.

Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben.